

PARRY, JOHN ('Bardd Alaw'; 1776-1851), cerddor

Enw: John Parry

Ffugenw: Bardd Alaw

Dyddiad geni: 1776

Dyddiad marw: 1851

Plentyn: John Orlando Parry

Rhiant: Thomas Parry

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cerddor

Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio

Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd yn Ninbych, 18 Chwefror 1776, mab Thomas Parry, saer maen, o bentref Aberwheeler, tua chwe milltir o Ddinbych. Cafodd ei wersi cerddorol cyntaf gan gerddor a ddysgai rai i ddawnsio, ac a ddysgodd y clarinet iddo; canai John Parry yr offeryn hwnnw yn yr eglwys. Yn 1793 ymunodd â seindorf cartreflu sir Ddinbych, ac yn 1797 penodwyd ef yn arweinydd iddi. Yn 1807 ymsefydlodd yn Llundain; galwyd am ei wasanaeth i ganu'r offerynnau chwyth mewn cyngherddau, a dechreuodd yntau gyfansoddi iddynt. Yn 1809 cyhoeddodd ganeuon a darnau eraill, a chafodd wahoddiad i gyfansoddi cerddoriaeth i'r Vauxhall Gardens, ac ef a drefnai y rhan gerddorol am flynyddoedd. Yn 1804 dug allan *The Ancient Britons Martial Music*, ac yn 1807 gasgliad arall o'r darnau wedi eu trefnu i'r delyn neu'r piano, fflwt, a sielo. Ysgrifennodd amryw erthyglau i'r *Cambro-Briton* ar alawon Cymreig, 1819-22. Yn 1820 penodwyd ef i drefnu rhan gerddorol eisteddfod Powys, ac yno'r urddwyd ef yn 'Bardd Alaw.' Yn 1821 dug allan gasgliad o *Alawon Cymreig* gyda geiriau Saesneg o waith Mrs. Hemans, a dwy opera - chwaraewyd un ohonynt am 25 o nosweithiau, a daeth hynny ag ef i sylw fel cyfansoddwr. Bu'n arweinydd cerddorol a beirniad yn eisteddfodau Aberhonddu (1822-6), Biwmares (1832), Caerdydd (1834), y Fenni (1836-48). Yn 1820 sefydlodd Gymdeithas y Canorion er meithrin canu gyda'r delyn, a cheir traethawd ar y delyn ganddo yn *Y Cymmrodor*. Golygodd y tonau i *Seren Gomer* am flynyddoedd. Cyfansoddodd lawer o gerddoriaeth. Bu farw yn Llundain, 8 Ebrill 1851.

JOHN ORLANDO PARRY (1810 - 1879), cerddor

Mab John Parry, ganwyd 3 Ionawr 1810. Dysgwyd ef i ganu'r delyn gan Boscha, ac yn 15 oed daeth allan yn delynor cyhoeddus. Yr oedd yn chwaraeydd medrus ar y piano hefyd, ac yn 21 oed ymddangosodd fel datganwr (bariton). Yr oedd hefyd yn arlunydd da. Yn 1836 rhoddwyd budd-gyngerdd iddo o dan nawdd Cymdeithas y Cymmrodorion, a chymerai prif gantorion Llundain ran ynddo. Wedi hyn trodd i ganu caneuon ysgafn. Cofir amdano fel cyfansoddwr y ddeuawd, 'Flow gently, Deva,' a fu mor boblogaidd yng Nghymru. Yn 1840 cyfansoddodd chwareugerdd 'Wanted, a Governess,' ac amryw ganeuon. Oherwydd afiechyd gadawodd y llwyfan yn 1853, ac apwyntiwyd ef yn organydd eglwys S. Jude, Southsea. Yn 1860 ymunodd â chwmni cyngerdd Mr. a Mrs. German Reed, ond oherwydd afiechyd ymneilltuodd yn 1869. Bu farw yn East Nonsley, Surrey, ar 20 Chwefror 1879. Y mae llawer o ddefnyddiau ynglŷn â'i waith fel cerddor ac arlunydd yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889–96)

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Y Cerddor, Ionawr 1890

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Y Cymmrodor, 1951

Darllen Pellach

Edward Jones a JPrryc,; *The Welsh harper* (London 1838)

Erthygl Wicipedia: [John Parry](#)

Gweithiau

William Thomas, *Cyfarfod Y Cymry*, 'Yr awen lawen; sef, Casgliad o ganiadau dewisol'(Caerfyrddin 1851), tt.45-46

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [John Orlando Parry Manuscripts](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 10070C: John Orlando Parry](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 17732D: Details of concerts by John Orlando Parry](#)

Archifau LIGC: [NLW MS 17733D: Programmes, posters, etc taken from NLW MS 17732D](#)

VIAF: [66659325](#)

Wikidata: [Q3399352](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

